OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2010 Rhif 271 (Cy.34)

## ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

# Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 (O.S. 1993/252) ("Rheoliadau 1993") yn darparu ar gyfer cynnwys yr hysbysiadau galw am dalu ardrethi, a ddyroddir gan awdurdodau bilio (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) yng Nghymru, a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflenwi wrth gyflwyno hysbysiadau o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau 1993 drwy addasu'r wybodaeth sydd i'w chyflenwi yn dilyn yr ailbrisio ar 1 Ebrill 2010 ac ynglŷn â'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn unol â Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2010 (O.S. 2010/273 (Cy.36)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn unig i ardrethi sy'n daladwy ar ôl 31 Mawrth 2010.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2010 No. 271 (W.34)

## RATING AND VALUATION, WALES

# The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 1993 (S.I. 1993/252) ("the 1993 Regulations") provide for the contents of rate demand notices, which are issued by billing authorities (county councils and county borough councils) in Wales, and for the information to be supplied when such notices are served by them.

These Regulations, which apply in relation to Wales, amend the 1993 Regulations by revising the information to be supplied following the revaluation on 1 April 2010 and concerning the small business rate relief scheme pursuant to the Non-Domestic Rating (Small Business Relief) (Wales) (Amendment) Order 2010 (S.I. 2010/273 (W.36)).

These Regulations only apply in relation to rates payable after 31 March 2010.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 271 (Cy.34)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Chwefror 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *9 Chwefror 2010* |
| *Yn dod i rym* | *3 Mawrth 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62, 143(2) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**3**).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010, a deuant i rym ar 3 Mawrth 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993**

**2**.–(1) Diwygir Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**4**) fel a ganlyn.

(**1**) 1988 p.41.

(**2**) 1993 p.38.

(**3**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**4**) O.S. 1993/252, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/284, 1996/311, 1996/1880, 1997/356, 1998/155, 2000/793 (Cy.303), 2008/7 (Cy.3) a 2008/3075 (Cy.269).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 271 (W.34)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 February 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *9 February 2010* |
| *Coming into force* | *3 March 2010* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 62, 143(2) and 146(6) of, and paragraphs 1 and 2(2) of Schedule 9 to, the Local Government Finance Act 1988(**1**) and section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**2**) and now vested in the Welsh Ministers(**3**).

**Title, application and commencement**

**1**.–(1) The title of these Regulations is The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2010 and they come into force on 3 March 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendments to the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 1993**

**2**.–(1) Schedule 2 to the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 1993(**4**) is amended as follows.

(**1**) 1988 c.41.

(**2**) 1993 c.38.

(**3**) The powers of the Secretary of State were transferred, in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), *see* the reference to the Local Government Finance Act 1988 in Schedule 1. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers under section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**4**) S.I. 1993/252, amended by S.I. 1995/284, 1996/311, 1996/1880, 1997/356, 1998/155, 2000/793 (W.303), 2008/7 (W.3) and 2008/3075 (W.269).

(2) Ym mharagraff 1 o Ran 1 o'r Atodlen–

(a) Yn yr is-baragraff sydd â'r pennawd "Rateable Value"–

(i) yn lle "2005", rhodder "2010";

(ii) yn lle "2003", rhodder "2008"; a

(iii) hepgorer y geiriau o "Thus" i "offices".

(b) Yn yr is-baragraff sydd â'r pennawd "Small Business Rate Relief"–

(i) ym mharagraff (a), yn lle "£2,000" rhodder "£2,400";

(ii) ym mharagraff (b), yn lle "£2,001 and £6,500", rhodder "£2,401 and £7,800"; a

(iii) ym mharagraff (e) yn lle "£6,501 and £9,000", rhodder "£7,801 and £11,000".

**3**. Ym mharagraff 1 o Ran 2 o'r Atodlen–

(a) Yn yr is-baragraff sydd â'r pennawd "Gwerth Ardrethol"–

(i) yn lle "2005", rhodder "2010";

(ii) yn lle "2003", rhodder "2008"; a

(iii) hepgorer y geiriau o "Felly" i "awdurdod".

(b) Yn yr is-baragraff sydd â'r pennawd "Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach"–

(i) ym mharagraff (a) yn lle "£2,000" rhodder "£2,400";

(ii) ym mharagraff (b) yn lle "£2,001 a £6,500", rhodder "£2,401 a £7,800"; a

(iii) ym mharagraff (d) yn lle "£6,501 a £9,000", rhodder "£7,801 a £11,000".

(2) In paragraph 1 of Part 1 of the Schedule–

(a) In the sub-paragraph headed "Rateable Value"–

(i) for "2005", substitute "2010";

(ii) for "2003", substitute "2008"; and

(iii) omit the words from "Thus" to "offices".

(b) In the sub-paragraph headed "Small Business Rate Relief"–

(i) in paragraph (a) for "£2,000" substitute "£2,400";

(ii) in paragraph (b) for "£2,001 and £6,500", substitute "£2,401 and £7,800"; and

(iii) in paragraph (e) for "£6,501 and £9,000", substitute "£7,801 and £11,000".

**3**. In paragraph 1 of Part 2 of the Schedule–

(a) In the sub-paragraph headed "Gwerth Ardrethol"–

(i) for "2005", substitute "2010";

(ii) for "2003", substitute "2008"; and

(iii) omit the words from "Felly" to "awdurdod".

(b) in the sub-paragraph headed "Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach"–

(i) in paragraph (a) for "£2,000" substitute "£2,400";

(ii) in paragraph (b) for "£2,001 a £6,500", substitute "£2,401 a £7,800"; and

(iii) in paragraph (d) for "£6,501 a £9,000", substitute "£7,801 a £11,000".

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

6 Chwefror 2010

6 February 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 271 (Cy.34)

## ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 271 (W.34)

## RATING AND VALUATION, WALES

The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2010

£4.00

W630/02/10 ON